# **Ymateb Llywodraeth Cymru**

# Y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith: adroddiad *Cyfoeth Naturiol Cymru - Gwaith Craffu Blynyddol 2023-24*

27 Mehefin 2024

Fel Ysgrifennydd y Cabinet sy'n atebol am berfformiad a chyflawniad Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC), rwy'n croesawu adroddiad Cyfoeth Naturiol Cymru - Gwaith Craffu Blynyddol, y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith (y Pwyllgor).

Hoffwn ddiolch i'r Pwyllgor am ei ystyriaeth ofalus a phroffesiynol wrth ymgymryd â'r gwaith craffu hwn fel y nodir yn ei adroddiad cynhwysfawr a gyhoeddwyd ar 21 Mai 2024.

Nodir yma ymateb Llywodraeth Cymru i 13 argymhelliad yr adroddiad.

Huw Irranca-Davies AS

Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig

Cabinet Secretary for Climate Change & Rural Affairs

# Cynnwys

**1. Llywodraethiant ..... 3**

Argymhelliad 1. ..... 3

Argymhelliad 2. ..... 4

Argymhelliad 3. ..... 4

**2. Cyllideb ..... 5**

Argymhelliad 4. ..... 5

Argymhelliad 5. ..... 5

Argymhelliad 6. ..... 6

Argymhelliad 7. ..... 6

**3. Materion Eraill ..... 7**

Argymhelliad 8. ..... 7

Argymhelliad 9. ..... 8

Argymhelliad 10. ..... 9

Argymhelliad 11. ..... 9

Argymhelliad 12. ..... 10

Argymhelliad 13. ..... 11

# 1. Llywodraethiant

Yn yr adran hon, canolbwyntiodd y Pwyllgor ar Lythyr Cylch Gwaith CNC, ei Gynllun Corfforaethol, Cytundebau Lefel Gwasanaeth, Cynllun Busnes a mesurau perfformiad, recriwtio a sgiliau, a ffyrdd CNC o weithio ar ôl y pandemig.

Gwnaeth y Pwyllgor dri argymhelliad yn yr adran hon.

## Argymhelliad 1.

*Dylai CNC fwrw ymlaen â'r gwaith o ddatblygu a gweithredu cytundebau lefel gwasanaeth ar draws yr holl feysydd eraill o'i fusnes sy'n weddill a rhoi amlinelliad manwl o gam nesaf y gwaith cytundebau lefel gwasanaeth, gan gynnwys meysydd penodol i'w cynnwys ac amserlen.*

Ymateb Llywodraeth Cymru: Gwrthod

**1.** Mae Cynllun Corfforaethol CNC, *Byd Natur a Phobl yn Ffynnu Gyda'n Gilydd*, yn nodi gweledigaeth, cenhadaeth ac amcanion llesiant CNC hyd at 2030.

**2.** Er mwyn gwella'r ffordd y bydd amcanion y Cynllun Corfforaethol yn cael eu cynllunio a'u cyflawni, drwy 2024-25, mae CNC yn canolbwyntio ar ddatblygu a phrofi dull cynllunio aml-flwyddyn, yn cynnwys nodi metrigau adrodd ar gyflawniad, gan ddysgu o ddatblygiad a gweithrediad y cytundebau lefel gwasanaeth. Bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i weithio gyda CNC i brofi a mireinio'r dull hwn gydol 2025-2026.

**3.** Gan y bydd y ffocws ar gynllunio aml-flwyddyn, mae Llywodraeth Cymru wedi cytuno gyda CNC nad oes bellach angen parhau gyda'r broses o lunio cytundebau lefel gwasanaeth.  Wrth ddatblygu'r cynlluniau aml-flwyddyn bydd yn nodi'n glir faint o adnoddau fydd eu hangen fel y gellir cyflawni'n llwyddiannus amcanion Cynllun Corfforaethol CNC.  O'r herwydd mae'r Argymhelliad hwn wedi cael ei 'Wrthod'.

## Argymhelliad 2.

*Dylai CNC archwilio cyfleoedd i ymgysylltu â rhanddeiliaid i fireinio a gwella effeithiolrwydd y cytundebau lefel gwasanaeth, gan ganolbwyntio'n arbennig ar y meysydd blaenoriaeth a nodwyd ar gyfer y cam nesaf o ddatblygu'r cytundebau lefel gwasanaeth.*

Ymateb Llywodraeth Cymru: Gwrthod

**4.** O fewn y broses gynllunio aml-flwyddyn sydd eisoes wedi'i chrybwyll, bydd y ffocws cysylltiedig ar ailadrodd fframwaith rheoli perfformiad CNC yn rhoi mwy o eglurder ar sut mae CNC wedi cyflawni ei amcanion ei hun a'r rhai a rennir â rhanddeiliaid. Bydd hyn yn sicrhau gwell dealltwriaeth o effeithiolrwydd, gan nodi'r hyn sy'n ysgogi cyflawniad a'r hyn sy'n ei rwystro a lle mae angen i bethau newid.

**5.** Bydd y ddealltwriaeth gynyddol hon, ynghyd â mewnwelediadau a geisir gan ein rhanddeiliaid, yn helpu CNC i flaenoriaethu ble a sut y gall wella darpariaeth gwasanaethau. Gyda'i gilydd, byddant yn cyfrannu at gynllunio aml-flwyddyn CNC, y cyfeirir ato yn Argymhelliad 1, ac o fudd iddo.

## Argymhelliad 3.

*Dylai CNC roi diweddariad cyn gynted ag y bo'n ymarferol ar ôl 31 Hydref 2024 ar hynt y gwaith o ddatblygu dangosyddion strategol a metrigau perfformiad terfynol.*

Ymateb Llywodraeth Cymru: Derbyn

**6.** Bydd CNC yn rhoi diweddariad i'r Pwyllgor ar ôl profi a datblygu ei ddull cynllunio aml-flwyddyn, a gyfoethogir gan fewnbwn rhanddeiliaid. Bydd hyn yn cynnwys canlyniadau ei waith profi a mireinio effeithiau a dangosyddion strategol. Noder y disgwylir i'r gwaith hwn gael ei gwblhau a'i gymeradwyo gan ei Fwrdd yn ystod hydref 2024.

# 2. Cyllideb

Yn yr adran hon, canolbwyntiodd y Pwyllgor ar bwysau cyllidebol a rheoli'r gyllideb, a oedd yn cynnwys y posibilrwydd o gau canolfannau ymwelwyr CNC.

Mae'r Pwyllgor wedi gwneud pedwar argymhelliad yn yr adran hon.

## Argymhelliad 4.

*Dylai CNC weithio'n agos gyda Llywodraeth Cymru i ddatblygu a gweithredu strategaethau sy'n lleihau effeithiau negyddol setliad presennol y gyllideb a sicrhau y caiff gwasanaethau hanfodol eu cynnal er gwaethaf y diffyg cyllid.*

Ymateb Llywodraeth Cymru: Derbyn

**7.** Dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf, mae CNC wedi bod yn gweithio'n agos ac yn llwyddiannus gyda Llywodraeth Cymru wrth iddi gynnal nifer o adolygiadau manwl i wella sut y rheolir ei chyllidebau a'r risgiau ariannol cysylltiedig, ac mae'r gwaith hwn yn dal i fynd rhagddo. Bydd y dull hwn yn parhau i sicrhau bod CNC yn canolbwyntio ar gyflawni ei swyddogaethau blaenoriaeth a'i ddyletswyddau statudol o fewn yr amlenni cyllidebol cyfredol ac amlenni cyllidebol y dyfodol.

## Argymhelliad 5.

*Dylai CNC ddatblygu a gweithredu strategaeth ymgysylltu sy'n cynnwys ymgynghori â'r cyhoedd a rhanddeiliaid ynghylch penderfyniadau ar gwtogi neu ailstrwythuro gwasanaethau. Dylai'r strategaeth hon geisio rheoli disgwyliadau ac esbonio newidiadau yn y modd y darperir gwasanaethau.*

Ymateb Llywodraeth Cymru: Derbyn

**8.** Mae CNC yn cwblhau cynigion i sicrhau cynaliadwyedd a chadernid ariannol yn 2025-26 a 2026-27. Unwaith y bydd y gwaith hwn wedi'i gwblhau, bydd CNC yn darparu cynllun cyfathrebu wedi'i dargedu ar gyfer gweithwyr, partneriaid a rhanddeiliaid, ar yr adeg briodol, i esbonio unrhyw newidiadau a sut y bydd gwaith cyflawni a/neu ymgysylltu yn esblygu o ganlyniad.

## Argymhelliad 6.

*Dylai CNC roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor maes o law am fanylion a chanlyniad ei gais buddsoddi i arbed*.

Ymateb Llywodraeth Cymru: Derbyn

**9.** Mae disgwyl i CNC rannu manylion ei gais buddsoddi i arbed erbyn diwedd blwyddyn ariannol 24/25.

## Argymhelliad 7.

*Dylai CNC adrodd i'r Pwyllgor yn y chwe mis nesaf ar statws ei ganolfannau ymwelwyr ac amlinellu cynlluniau i barhau i'w gweithredu*.

Ymateb Llywodraeth Cymru: Derbyn

**10.** Bydd CNC yn adrodd i'r Pwyllgor yn y chwe mis nesaf h.y. erbyn diwedd Rhagfyr 2024, ar statws ei Ganolfannau Ymwelwyr, gan gynnwys amlinellu sut y mae disgwyl y bydd y Canolfannau hyn yn gweithredu yn y dyfodol.

# 3. Materion Eraill

Yn yr adran hon, canolbwyntiodd y Pwyllgor ar heriau a chyllid ar gyfer bioamrywiaeth; mynd i'r afael â llygredd dŵr sy'n deillio o amaethyddiaeth mewn perthynas â gorfodi ac asesiadau ac adolygiad polisi sy'n mynd rhagddynt; plannu coed a rôl CNC o ran rheoli coedwigoedd; ac ardaloedd draenio mewnol.

Mae'r Pwyllgor wedi gwneud chwe argymhelliad yn yr adran hon.

## Argymhelliad 8.

*Dylai Llywodraeth Cymru archwilio cyfleoedd i ddatblygu a gweithredu fframwaith ariannu cydgysylltiedig sy'n caniatáu ar gyfer dyrannu adnoddau'n strategol o wahanol ffynonellau i gefnogi cadwraeth bioamrywiaeth*.

Ymateb Llywodraeth Cymru: Derbyn

**11.** Mae Llywodraeth Cymru yn parhau i weithio gyda CNC i archwilio cyfleoedd i ddatblygu a gweithredu fframweithiau ariannu amgen er mwyn rhoi hyblygrwydd ychwanegol i CNC i gefnogi ei waith.

**12.** Er enghraifft, ar gyfer blwyddyn ariannol 2024-2025, mae Llywodraeth Cymru wedi sefydlu model ariannu newydd i gefnogi rheolaeth CNC o Ystad Goetiroedd Llywodraeth Cymru. Mae'r trefniadau newydd hyn yn rhoi cyllideb flynyddol benodol i CNC, a fydd yn ei helpu i liniaru effaith anwadalrwydd yn y farchnad pren.

**13.** Mae CNC yn ystyried ac yn adolygu'n feirniadol yr holl weithgareddau, gan sicrhau ei fod yn canolbwyntio ar gyflawni ei swyddogaethau blaenoriaeth a'i ddyletswyddau statudol o fewn y cyllidebau presennol fel yr amlinellir yn Llythyr Cylch Gwaith Tymor y Llywodraethu CNC. Mae Llywodraeth Cymru yn parhau i ddarparu'r holl gymorth sydd ei angen ar CNC yn yr adolygiadau hyn.

## Argymhelliad 9.

*Dylai CNC roi diweddariad manwl ar gynnydd y gwaith o ddatblygu targedau bioamrywiaeth statudol.*

Ymateb Llywodraeth Cymru: Gwrthod

**14.** Noder mai Llywodraeth Cymru sy'n gyfrifol am ddatblygu targedau bioamrywiaeth statudol i Gymru fel rhan o gyfraniad Cymru at ymrwymiadau'r DU i'r Confensiwn ar Amrywiaeth Fiolegol ac amcanion a thargedau Fframwaith Bioamrywiaeth Byd-eang Kunming-Montreal, ac nid CNC.

**15.** Lansiodd Llywodraeth Cymru ei hymgynghoriad Papur Gwyn ar egwyddorion amgylcheddol, trefniadau llywodraethu a thargedau bioamrywiaeth ar 30 Ionawr. Ymhlith agweddau eraill, mae'n cynnig cyflwyno targedau a dyletswyddau statudol ar gyfer diogelu ac adfer bioamrywiaeth yng Nghymru yn unol ag amserlenni 2030 a 2050 a bennwyd gan y GBF. Mae'r cynigion yn cynnwys cyflwyno Fframwaith Adfer Natur statudol gyda tharged bioamrywiaeth cyffredinol i'w ategu gan dargedau statudol ychwanegol a mwy penodol drwy is-ddeddfwriaeth. Mae'r cynigion hefyd yn cynnwys gofynion i Lywodraeth Cymru gyhoeddi strategaeth adfer natur statudol a chynllun gweithredu. Byddai'r Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol yn cael ei ddefnyddio fel y mecanwaith adrodd statudol allweddol ar gyfer monitro ac arddangos cyflawniad yn erbyn y targedau ar ôl iddynt gael eu datblygu, ac mae'n ofynnol i Weinidogion osod datganiad gerbron y Senedd yn nodi a yw'r targedau wedi'u cyflawni. Cynigir bod y corff llywodraethu newydd yn darparu gwaith craffu a goruchwylio annibynnol ar gyflawni'r targedau statudol.

**16.** Daeth yr ymgynghoriad Papur Gwyn i ben ar 30 Ebrill. Mae dadansoddiad o'r ymatebion i'r ymgynghoriad ar y gweill a rhagwelir y cyhoeddir yr allbynnau terfynol ddechrau mis Mehefin. Mae swyddogion Llywodraeth Cymru yn drafftio ymateb polisi i'r ymgynghoriad a fydd yn cael ei gyhoeddi ochr yn ochr â'r dadansoddiad yn yr haf.

**17.** Mae CNC yn gweithio ochr yn ochr ag eraill megis y Cyd-bwyllgor Cadwraeth Natur i ddarparu gwybodaeth, tystiolaeth ac arbenigedd a chymorth i Lywodraeth Cymru gyda'i gwaith datblygu i sefydlu fframwaith bioamrywiaeth statudol a thargedau bioamrywiaeth statudol yn unol â blaenoriaeth Llesiant Cynllun Corfforaethol CNC: *Byd natur wrthi'n gwella*. Mae CNC hefyd yn cefnogi Archwiliad Dwfn o Fioamrywiaeth 30 x 30, sy'n un o dargedau'r GBF.

## Argymhelliad 10.

*Dylai Llywodraeth Cymru hwyluso deialog rhwng CNC, ffermwyr a grwpiau amgylcheddol i fynd i'r afael â'r anghytuno sylweddol ynghylch y dull o reoli llygredd amaethyddol.*

Ymateb Llywodraeth Cymru: Derbyn

**18.** Mae Llywodraeth Cymru yn parhau i ymgysylltu ag amrywiaeth eang o randdeiliaid ynghylch mater cymhleth llygredd o ffynonellau amaethyddol. Mae hyn yn cynnwys swyddogion yn mynychu'n rheolaidd Is-Grŵp Fforwm Rheoli Tir Cymru ar Lygredd Amaethyddol. Mae'r Prif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig hefyd yn bwriadu cyd-gadeirio'r uwchgynhadledd afonydd nesaf yn y Sioe Fawr gan ganolbwyntio ar rôl a her amaethyddiaeth.

**19.** Mae Rheoliadau Adnoddau Dŵr (Rheoli Llygredd Amaethyddol) (Cymru) 2021 yn mynnu bod adolygiad yn cael ei gynnal bob 4 blynedd i asesu effeithiolrwydd y mesurau a osodir gan y Rheoliadau fel modd o leihau neu atal llygredd dŵr o ffynonellau amaethyddol ac, os oes angen, eu diwygio. Mis Ebrill 2025 yw'r dyddiad cau ar gyfer cwblhau'r adolygiad cyntaf.

**20.** Bydd yr adolygiad yn ymgorffori pob agwedd ar y Rheoliadau a bydd yn cynnwys y Mesurau Amgen a gynigiwyd yn flaenorol a'r Dull Rheoli Maethynnau Uwch. Bydd yn bwysig bod amrywiaeth eang o randdeiliaid yn cymryd rhan yn y ddeialog.

**21.** Mewn datganiad ysgrifenedig a gyhoeddwyd ar 27 Chwefror 2024 (Datganiad Ysgrifenedig: Ffermio yng Nghymru (27 Chwefror 2024) | LLYW.CYMRU), ymrwymodd y Prif Weinidog ar y pryd, Mark Drakeford, AS, a'r Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd ar y pryd, Lesley Griffiths AS, i benodi cadeirydd annibynnol i oruchwylio'r broses adolygu. Mae Llywodraeth Cymru yn parhau i fod yn ymrwymedig i'r penodiad hwn ac mae'r broses recriwtio yn mynd rhagddi ar hyn o bryd.

## Argymhelliad 11.

*Dylai CNC barhau i adolygu pa mor ddigonol yw'r adnoddau ar gyfer monitro a gorfodi'r Dull Rheoli Maethynnau Uwch sy'n cael ei adolygu.*

Ymateb Llywodraeth Cymru: Derbyn

**22.** Mae cytundeb lefel gwasanaeth presennol CNC gyda Llywodraeth Cymru yn cynnwys darparu gwaith monitro cydymffurfiaeth a gorfodi'r Dull Rheoli

Maethynnau Uwch, ac mae'r gwaith hwn yn para o 1 Ionawr 2024 tan 31 Rhagfyr 2024.

**23.** Mae nifer o reolwyr tir wedi hysbysu CNC eu bod yn bwriadu defnyddio'r ENMA yn ystod y cyfnod hwn. Ystyrir bod y safleoedd hyn lle bydd yr ENMA yn cael ei fabwysiadu yn safleoedd "risg uchel" ac fe'u cynhwysir yn rhaglen arolygiadau wedi'u targedu CNC a gynhelir gan Swyddogion Rheoli Llygredd Amaethyddol.

**24.** Mae cyllid ar gyfer y gwaith hwn yn ei le hyd at ddiwedd mis Mawrth 2025, ac mae Llywodraeth Cymru yn gweithio mewn partneriaeth â CNC wrth iddo geisio ymestyn y cytundeb lefel gwasanaeth a'i gyllid i'r blynyddoedd a ganlyn.

## Argymhelliad 12.

*Dylai CNC adolygu ei gynlluniau adnoddau coedwigaeth yn rheolaidd i sicrhau eu bod yn ymgorffori'r gwaith ymchwil ecolegol a'r rhagamcanion newid hinsawdd diweddaraf, a chynyddu'r defnydd o rywogaethau brodorol a phlannu cymysg i wella bioamrywiaeth a gwella'r gallu i wrthsefyll clefydau.*

Ymateb Llywodraeth Cymru: Derbyn

**25.** Mae adolygiadau o'r fath, sy'n ymgorffori'r gwaith ymchwil a'r rhagamcanion diweddaraf ar gyfer y dyfodol, yn elfennau hanfodol o reolaeth barhaus CNC o'i Hystadau Coetiroedd ac Ystadau Coetiroedd Llywodraeth Cymru. Mae'r rhain yn darparu mewnbwn i'r ffordd mae CNC yn cyflawni ei ddyletswydd i reoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy..

**26.** Cynlluniau Adnoddau Coedwigaeth yw'r ddogfen reoli graidd ar gyfer Ystad Goetiroedd Llywodraeth Cymru. Maent yn cael eu diweddaru ar gylch 10 mlynedd, gyda phwynt adolygu bob 5 mlynedd. Mae'r cynlluniau hyn yn nodi amcanion hirdymor ac maent yn sail ar gyfer rhaglenni gwaith aml-flwyddyn, ar gyfer cymeradwyaeth reoleiddiol i gwympo coed, ac maent yn arf allweddol ar gyfer ymgynghori â rhanddeiliaid.

**27.** Wrth ddatblygu Cynlluniau Adnoddau Coedwigaeth, mae tîm CNC o gynllunwyr yn defnyddio egwyddorion Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy i ymateb i ystod o fanteision a risgiau, gan gynnwys cynhyrchu pren, addasu i'r newid yn yr hinsawdd, diogelu dŵr glân a rheoli perygl llifogydd, cadwraeth natur, gwella’r dirwedd a mynediad at natur. Mae gan CNC raglen i gyflwyno Cynlluniau Adnoddau Coedwigaeth, sy'n ymateb i

ystod ehangach o fanteision a risgiau, a fydd yn disodli'r Cynlluniau Dylunio Coedwig sydd wedi dyddio.

## Argymhelliad 13.

*Dylai CNC roi'r wybodaeth ddiweddaraf am unrhyw drafodaethau a gynhaliwyd gydag Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig ynghylch rheoli ardaloedd draenio mewnol a'r cynlluniau ar eu cyfer.*

Ymateb Llywodraeth Cymru: Derbyn

**28.** Ni fu unrhyw drafodaethau, ar y pwynt hwn, rhwng CNC ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig.

**29.** Nid yw CNC wedi cyflwyno unrhyw gais i Ysgrifennydd y Cabinet nac i swyddogion Llywodraeth Cymru am adolygiad o Ardaloedd Draenio Mewnol. Mae CNC wedi rhannu'r farn gyda swyddogion Llywodraeth Cymru ei bod o bosibl yn amser ystyried a oes angen adolygiad, o ystyried yr heriau sydd ynghlwm wrth yr argyfyngau hinsawdd a natur.